Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **29 Ionawr 2019** |
| **Amser:** | **09:00 – 11:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Claire Bryant, SCHTh (CB)<br>Yr Arolygydd Chris Neve, Swyddog Staff (CN)<br>Mair Harries, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 15/01/2019** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Diweddariad Ynghylch Cynnydd** |
| **PB 2386** | **Trafodaeth i'w chynnal rhwng y CHTh a'r PGC/DD yn dilyn canlyniadau'r arolwg staff.** | **Yn parhau** |
| **PB 2387** | **SC i gwrdd â'r PS a'r PSA er mwyn cwblhau'r trefniadau ar gyfer y siart Pecyn Data AD sy'n dogfennu llif gwaith a symudiadau swyddogion dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan gynnwys gwybodaeth am swyddi sydd â ffrydiau ariannu'n gysylltiedig â nhw, erbyn BP mis Chwefror.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 2388** | **Cynnal trafodaeth ynghylch costau System Rheoli Cofnodion y tu allan i gyfarfod y BP.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 2389** | **Y PGC/DD i roi gwybod i Heddlu De Cymru na fydd HDP yn ymuno â nhw mewn uned gwasanaethau cyfreithiol.** | **Wedi'i gwblhau** |

| **CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD 29/01/2019** | | |
|---|---|---|
| **PB T2 91** | **Cymeradwyodd y CHTh adnewyddu'r cytundeb ar gyfer y system adnabod rhifau ceir yn awtomatig gyda chwmni Civica Cyf, am gost o £190,000 yn y flwyddyn gyntaf, a £165,000 am y pedair blynedd dilynol.** | **Caffael** |

**2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

Cydnabu fod y cofnodion o gyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona (BP) ar 15 Ionawr yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.

PB T2 87 – *Cytunwyd y dylid mabwysiadu'r Polisi ar gyfer Codi Tâl am Wasanaethau Heddlu Arbennig a'i weithredu'n gyson* – Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â'r ffordd ymlaen ar gyfer plismona digwyddiadau megis y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod.

**Cam Gweithredu: Y Swyddog Staff i drefnu cyfarfod rhwng y CHTh, y PG, Steve Hewson a John Davies er mwyn trafod modelau prisio ar gyfer y Sioe Frenhinol yn y dyfodol.**

PB 2386 - *Trafodaeth i'w chynnal rhwng y CHTh a'r PGC/DD yn dilyn canlyniadau'r arolwg staff* – Soniodd y CHTh am gais y Panel Heddlu a Throseddu i gael copi o ganlyniadau'r arolwg staff.

**Cam Gweithredu: Y Swyddog Staff i roi copi o ganlyniadau'r arolwg staff i'r Panel Heddlu a Throseddu.**

PB 2387 - *SC i gwrdd â'r PS a'r PSA er mwyn cwblhau'r trefniadau ar gyfer y siart Pecyn Data AD sy'n dogfennu llif gwaith a symudiadau swyddogion dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan gynnwys gwybodaeth am swyddi sydd â ffrydiau ariannu'n gysylltiedig â nhw, erbyn BP mis Chwefror* – Mynegodd y PSA bryderon ynghylch ffocws yr adran AD ar staff wedi'i gyllidebu, gan ddweud nad oedd defnydd o'r fath derminoleg yn gyson â'r lefelau adnoddau tybiedig o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Pwysleisiodd y CHTh na fyddai'n dychwelyd i'r Panel Heddlu a Throseddu yn 2020 gyda golwg ar geisio cynnydd sylweddol arall i'r praesept heddlu. Anogodd yr Heddlu i sicrhau fod pob aelod staff yn gwybod am y sefyllfa ariannol a dechrau cynllunio yn unol â hynny ar gyfer 2020/21.

**Cam Gweithredu – Y CHTh i fynd i gyfarfod nesaf arweinwyr yr Unedau Rheoli Sylfaenol er mwyn pwysleisio'r sefyllfa ariannol ar gyfer yr Heddlu yn 2019/20.**

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

**Diweddariadau Gweithredol**

Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch nifer o faterion gweithredol, gan gynnwys adennill beic cwad a oedd wedi'i ddwyn, cau lladd-dy anghyfreithlon a digwyddiad arfau saethu ym Mhowys. Holodd y CHTh pa un ai a oedd HDP dal yn defnyddio'r wasg ddigon er mwyn tawelu

meddyliau'r cyhoedd a rhoi gwybod iddynt am ymgyrchoedd llwyddiannus.

Dywedodd y CHTh nad oedd wedi derbyn calendrau'r Prif Swyddogion yn ddiweddar, a gofynnodd am iddynt barhau i gael eu darparu'n wythnosol.

**Cam Gweithredu: Rhoi calendrau'r Prif Swyddogion i'r CHTh bob wythnos.**

**Diweddariadau Sefydliadol**

Hysbysodd y PG y CHTh fod Timoedd Tasgio Bro wedi'u sefydlu ar draws pob Uned Reoli Sylfaenol. Dywedodd y PG nad oedd unrhyw un o swyddogion HDP wedi'i wahardd o'r gwaith ar hyn o bryd. Dywedodd y PG ei fod wedi derbyn gwahoddiad i fod yn siaradwr gwadd yn un o Ddiwrnodau i Ffwrdd ITV Cymru yng Nghaerdydd. Yno, gwyliodd ragflas o'r gyfres newydd *"Harbour Cops",* sydd ar fin gael ei darlledu ac sy'n cynnwys swyddogion Heddlu Dyfed-Powys.

**Cam Gweithredu: Y PG i roi rhagflas i'r CHTh o'r gyfres newydd '*Harbour Cops'*, sydd ar fin cael ei darlledu.**

**4. Diweddariad y CHTh**

**Lleol**

Soniodd y CHTh am ei ymrwymiadau lleol, gan gynnwys cyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu, a diwrnod ymgysylltu amlasiantaeth yn Nhregaron, Ceredigion.

**Cenedlaethol**

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynglŷn â'i ymrwymiadau cenedlaethol, gan gynnwys cyfarfod â thîm Embrace – Plant sy'n Ddioddefwyr Trosedd yn Llundain, a chyfarfod gyda Julie James AC yn y Cynulliad.

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â'r broses benderfynu o ran penodi Prif Swyddog Cymru Gyfan ar gyfer Uned Cyswllt Heddlu Llywodraeth Cymru.

**Cam Gweithredu: Y CHTh a'r PG i drafod eu barn am yr Uned Cyswllt Heddlu cyn cyfarfod nesaf Grŵp Plismona Cymru Gyfan.**

**Cam Gweithredu: Y PSA i wneud cais ffurfiol am ddadansoddiad o bob cyllideb cydweithio ar gyfer 2019/20.**

## 5. Pwnc y Mis: Cyllid

Dywedodd y CC fod sefyllfa wario net gyffredinol o £430,000 wedi'i phroffwydo ar gyfer SCHTh a HDP erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2018/19. Nodwyd fod £760,000 o'r gorwariant yn ymwneud â goramser a gwyliau banc a bod gorwariant pellach wedi digwydd o ran cyflogau swyddogion heddlu (£596,000) a staff yr heddlu (£272,000).

Holodd y CHTh am y sefyllfa ariannol ar gyfer Goleudy, gwasanaeth sydd wedi'i gomisiynu, a dderbyniodd grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Dywedodd y PSA fod hyn yn ymwneud â'r gwasanaeth codi tâl, ac awgrymodd y byddai'r trefniadau ariannol yn gyson â gwasanaethau eraill sy'n cael eu rhoi i gwmnïau eraill yn y dyfodol.

Trafododd y Bwrdd Atodiad C (Crynodeb Cyfalaf) o adroddiad y CC. Cwestiynodd y CHTh y cyllid sy'n gysylltiedig â'r system adnabod rhifau ceir yn awtomatig, camerâu fideo mewn ceir a phlismona digidol. Awgrymodd y PSA fod angen gwelliannau o ran darogan prosiectau o fewn y rhaglen gyfalaf.

Adolygodd y Bwrdd ddogfen Atodiad B (Diwedd Blwyddyn Goddrychol) y CC a oedd yn rhoi rhagamcaniadau ariannol ar gyfer yr heddlu. Awgrymodd y CC orwariant sefyllfa amcanol o £239,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Mynegodd y CHTh a'r PSA bryderon fod gorwariant ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn wedi'i ddarogan ers yr adroddiad am sefyllfa mis Mehefin ym mis Awst, fodd bynnag, roedd swm y gorwariant wedi cynyddu fesul tipyn o ragfynegiad mis Awst, sef £442,000 i sefyllfa mis Rhagfyr, sef £622,000. Nododd y PSA y gwahaniaeth rhwng tanwariant a ragwelwyd o £15,000 ddiwedd Tachwedd, gyda rhagamcaniadau fis yn ddiweddarach o orwariant o £239,000. Cydnabu'r CC fod y cynnydd o ran prisiau tanwydd o £50,000, costau ychwanegol ar gyfer staff heddlu, a chynnydd o 29% mewn costau ar gyfer y tîm fforensig wedi cyfrannu at y gorwariant annisgwyl.

Ystyriodd y CHTh y dadansoddiad manwl o fewn y cyflwyniad ar oramser. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag effeithiau a phroffil troseddau mawr dros y blynyddoedd diwethaf. Cynghorodd y PSA fod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi cynnwys darpariaeth wrth gefn ar gyfer 2019/20 gyda'r nod o greu cronfa wrth gefn o fewn y fantolen i gynorthwyo â milwrio yn erbyn cyfnodau brig a chyfnodau tawel perfformiad gweithredol. Dywedodd y PSA y byddai'n ddefnyddiol dileu oriau anghymdeithasol er mwyn cael mwy o eglurder ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol. Dywedodd y CHTh y byddai angen monitro ariannol agos er mwyn cadw'r costau goramser o fewn y sefyllfa a ragwelir.

Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch dirprwyo cyfrifoldeb ariannol ar draws yr Heddlu, gan ddweud y byddai arweinwyr URS yn rheoli eu

cyllideb eu hun o 1 Ebrill gyda mwy o wybodaeth a chefnogaeth a byddant yn cael eu dal i gyfrif drwy strwythur llywodraethu'r heddlu.

Gofynnodd y CHTh i'r CC pa mor hyderus ydoedd mai'r swm gorwariant cyfredol fyddai'r swm rhagamcanol terfynol eleni. Dywedodd y CC y bydd y rhif yn aros fel ag y mae ar hyn o bryd gan y bydd 18 aelod staff yn gadael fis Ionawr a bydd cerbydau Heddlu'n cael eu gwerthu.

Holodd y CHTh pa risgiau oedd wedi'u nodi gan y Grŵp Cyllid Aur. Dywedodd y CC fod angen canolbwyntio ar weithgarwch goramser, ac y byddai'r grŵp yn asesu ei ddiben wrth fynd mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf yn y cyfarfod nesaf ar 14 Mawrth. Dywedodd y PSA fod ganddi nifer o gwestiynau manwl y byddai'n eu codi'n uniongyrchol â'r CC yn eu cyfarfod pythefnosol yn hwyrach y diwrnod hwnnw.

Canmolodd y CHTh y PSA am ei gwaith craffu parhaus ar gyllidebau'r Heddlu ac ailadroddodd y byddai'n amharod i ystyried cynnydd o 10% neu uwch yn y praespet flwyddyn nesaf pa beth bynnag fydd sefyllfa ariannol yr Heddlu. Cytunwyd y byddai diweddariad ar y sefyllfa ariannol yn cael ei roi ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ymhen pythefnos.

**Cam Gweithredu: Cyflwyno'r sefyllfa ariannol ar gyfer mis Ionawr yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu (BAH) ar 12 Chwefror.**

## 6. Eitemau Sefydlog

### a) Diweddariad ynghylch Rheoli Risg

Holodd y PSA pa un ai a oedd angen cynyddu'r sgôr risg mewn perthynas â Chyllid o ystyried y newid yn y sefyllfa diwedd flwyddyn a ragwelir. Awgrymodd y PSA y dylid cynnwys risg dros y trefniadau ariannol a llywodraethu sy'n ymwneud â chydweithio. Cytunodd y CHTh fod diffyg eglurder ar nifer o faterion cydweithredol ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â'r cyfleuster newydd arfaethedig ar gyfer y Cyd-uned Arfau Saethu.

### b) Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Adolygodd yr Aelodau Bwrdd y crynodeb o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth diweddar a dderbyniwyd gan yr Heddlu, gyda'r CHTh yn cydnabod ei fod yn ddefnyddiol gwybod beth mae'r cyhoedd a'r wasg yn holi amdano.

## 7. Materion i'w trafod

**a) Dilyniant CID**

Hysbysodd CB y Bwrdd mai gwiriad diwydrwydd oedd yr eitem agenda hon yn dilyn newidiadau diweddar i CID. Dywedodd y PG y bu ailstrwythuro o ran unedau diogelu'r cyhoedd gyda chysylltiadau wedi'u sefydlu â Thimoedd Plismona Bro a Thimoedd Troseddau Gwledig. Dywedodd y PSA fod angen adlinio cyllidebau ar gyfer yr Adran Ymchwilio i Droseddau (CID) yn dilyn gorwariant sylweddol mewn un adran o CID a thanwariant sylweddol mewn un arall. Holodd y CHTh pa un ai a oedd CID yn cael ei ystyried fel dewis gyrfa deniadol a rhoddwyd gwybod iddo fod gwelliannau wedi'u gwneud i'r patrymau sifft a'r oriau a oedd unwaith yn anghymdeithasol er mwyn apelio at amrediad ehangach o swyddogion.

**b) Dilyniant i'r Adroddiad Craffu Dwys i Ddefnydd o Rym**

Diolchodd y CHTh i'r Uwch-arolygydd Craig Templeton am ei waith ar y dilyniant craffu dwys ac am y cyflwyniad a roddwyd i'r Bwrdd. Holodd CB pa un ai a fyddai cyfyngiadau ariannol yn y dyfodol y cyfeiriwyd atynt eisoes yn y cyfarfod yn effeithio ar waith sydd wedi'i drefnu mewn perthynas â'r ymatebion defnydd o rym y cytunwyd arnynt yn flaenorol. Cytunwyd y byddai diweddariad pellach yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona. Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â phenderfyniad heddluoedd eraill i beidio â chwblhau adroddiadau digwyddiad ar gyfer defnydd lefel is o rym megis gefynnu unigolyn sy'n cydymffurfio a thynnu pastynau (yn unig).

**Cam Gweithredu: Cyflwyno ymatebion ychwanegol i'r adroddiad craffu dwys i ddefnydd o rym yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ar 26 Chwefror.**

**c) Cytundeb ANPR (System Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig)**

Tynnodd y CC sylw at faterion â'r gyllideb o ran refeniw tir cyfalaf a oedd yn rhwystro cynnydd ar hyn o bryd â'r cytundeb ANPR. Parhad o'r cytundeb cyfredol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth yw'r cytundeb newydd a argymhellir. Roedd dau gyflenwr wedi cyflwyno ceisiadau ar gyfer y cytundeb, fodd bynnag, ystyriwyd nad oedd un yn cydymffurfio. Argymhellwyd adnewyddu'r cytundeb â chwmni Civica ar gyfer cymorth cynnal a chadw a fydd yn sicrhau arbediad o £17,000 yn y dyfodol o gymharu â chostau cyfredol.

Holodd y CHTh pa gymorth fyddai Civica'n rhoi a rhoddwyd gwybod iddo y byddai'r cwmni'n darparu 52 cerbyd ANPR newydd ac yn cefnogi pryniannau newydd sy'n ymwneud ag offer ANPR. Hefyd, rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd mai cytundeb ydoedd i gynnal a newid camerâu heb wasanaethau ychwanegol.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y CHTh adnewyddu'r cytundeb ar gyfer y system adnabod rhifau ceir yn awtomatig gyda chwmni Civica Cyf, am gost o £190,000 yn y flwyddyn gyntaf, a £165,000 am y pedair blynedd dilynol.**

### ch) Adborth AHEM

Roedd hi'n dda gan y PG gyhoeddi bod Dyfed-Powys ymysg y 4 heddlu gorau yn y DU ar gyfer gwella parhaus yn dilyn arolygiadau Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM).

### d) Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi ar Gyflwr Plismona

Nodwyd fod CB eisoes wedi trafod ymateb gyda'r Arolygydd Elaine Bendle, ac y byddai CN a'r Arolygydd Bendle yn rhoi ymateb awgrymedig yr Heddlu i SCHTh cyn y terfyn amser, sef 8 Chwefror.

### dd) Bwrdd Plismona Cymru Gyfan

Nododd y CHTh y byddai'n fuddiol cyflwyno pynciau i'w trafod cyn cyfarfod Bwrdd Plismona Cymru Gyfan ar 18 Chwefror. Cytunodd y PG a'r CHTh y dylai pynciau gynnwys y cyflwyniad i Gomisiwn Thomas, adolygiad o'r Uned Cyswllt Heddlu, y Dreth Brentisiaeth a gwaith partner.

**Cam Gweithredu: Y PS a'r PSA i roi pynciau y mae SCHTh eisiau trafod yng nghyfarfod Bwrdd Plismona Cymru Gyfan ar 18 Chwefror i'r Bwrdd.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 29/01/2019 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2390** | **Y Swyddog Staff i drefnu cyfarfod rhwng y CHTh, y PG, Steve Hewson a John Davies er mwyn trafod modelau prisio ar gyfer y Sioe Frenhinol yn y dyfodol.** | **CN** |
| **PB 2391** | **Y Swyddog Staff i roi copi o ganlyniadau'r arolwg staff i'r Panel Heddlu a Throseddu.** | **CN** |
| **PB 2392** | **Y CHTh i fynd i gyfarfod nesaf arweinwyr yr Unedau Rheoli Sylfaenol er mwyn pwysleisio'r sefyllfa ariannol ar gyfer yr Heddlu yn 2019/20.** | **CHTh** |
| **PB 2393** | **Y PG i roi rhagflas i'r CHTh o'r gyfres newydd** | **PG** |

| | | |
|---|---|---|
| | **‘*Harbour Cops*’, sydd ar fin cael ei darlledu.** | |
| **PB 2394** | **Rhoi calendrau’r Prif Swyddogion i’r CHTh bob wythnos.** | **Carol Price** |
| **PB 2395** | **Y CHTh a’r PG i drafod eu barn am yr Uned Cyswllt Heddlu cyn cyfarfod nesaf Grŵp Plismona Cymru Gyfan.** | **CHTh/PG** |
| **PB 2396** | **Y PSA i wneud cais ffurfiol am ddadansoddiad o bob cyllideb cydweithio ar gyfer 2019/20.** | **CC** |
| **PB 2397** | **Cyflwyno’r sefyllfa ariannol ar gyfer mis Ionawr yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu (BAH) ar 12 Chwefror.** | **CHTh** |
| **PB 2398** | **CB i adolygu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth er mwyn sefydlu tueddiadau cyfredol.** | **CB** |
| **PB 2399** | **Cyflwyno ymatebion ychwanegol i’r adroddiad craffu dwys i ddefnydd o rym yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ar 26 Chwefror.** | **Yr Uwch-arolygydd Craig Templeton** |
| **PB 2400** | **Y PS a’r PSA i roi pynciau y mae SCHTh eisiau trafod yng nghyfarfod Bwrdd Plismona Cymru Gyfan ar 18 Chwefror i’r Bwrdd.** | **PS/PSA** |